

# Polisi Preifatrwydd

## Polisi Preifatrwydd

Yng Nghymdeithas Defaid Mynydd Cymreig rydym yn parchu preifatrwydd ein cefnogwyr a'n hymwelwyr i'n gwefannau. Mae'r polisi hwn yn ymwneud â sut rydym yn casglu gwybodaeth, yr hyn a wnawn ag ef a pha reolaethau sydd gennych.

## Eich Preifatrwydd

Ein cenhadaeth yw annog bridio Defaid Mynydd Cymreig, a chynnal purdeb, cyfansoddiad a chymeriad y brîd ar gyfer goroesi yn amodau llym Bryniau Cymru. Ein nod yw codi ymwybyddiaeth am Ddefaid Mynydd Cymreig, pwysigrwydd eu rôl o ran cefnogi cymunedau gwledig a'u cyfraniad i amgylchedd Cymru ac i Nwyddau Cyhoeddus. Ein nod yw hyrwyddo'r cig fel un o flas arbennig.

Rydym yn cymryd ein dyletswydd i brosesu eich data personol o ddifrif. Mae'r polisi hwn yn esbonio sut rydym yn casglu, rheoli, defnyddio a diogelu eich data personol.

Efallai y byddwn yn newid y ddogfen hon o bryd i'w gilydd i adlewyrchu'r farn ddiweddaraf am yr hyn a wnawn gyda'ch gwybodaeth. Cofiwch wirio'r wybodaeth yn aml; byddwch yn gallu gweld a oes newidiadau wedi'u gwneud yn unol â'r dyddiad y cafodd ei ddiweddarau ddiwethaf.

Cyfeiriwch at yr adrannau isod i gael rhagor o fanylion am sut a pham rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol:

### 1. Pwy ydym ni?

Yn y polisi hwn mae cyfeiriadau at y Gymdeithas Defaid Mynydd Cymreig, neu at 'ni'.

### 2. Pa ddata personol rydym yn ei gasglu a sut rydym yn ei ddefnyddio

Yr hyn sydd ei angen arnom

Y Gymdeithas Defaid Mynydd Cymreig yw'r hyn a elwir yn 'rheolydd' y data personol rydych chi'n ei ddarparu i ni. Fel arfer byddwn yn casglu data personol sylfaenol amdanoch fel eich enw, enw'r fferm, enw masnachu, cyfeiriad post, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost.

Weithiau byddwn yn casglu gwybodaeth arall amdanoch chi fel maint eich diadell. Byddwn yn esbonio'n glir i chi ein bod am gasglu gwybodaeth o'r fath, ein rheswm dros gasglu gwybodaeth o'r fath, a byddwn ond yn gwneud hynny gyda'ch caniatâd penodol chi.

Pam mae ei angen arnom

Rydym yn casglu eich data personol mewn cysylltiad â'ch aelodaeth a gweithgareddau penodol, megis diweddariadau am ddigwyddiadau, cylchlythyrau, ceisiadau cofrestru neu aelodaeth, adborth, rhoddion, gwerthiannau defaid a hyrddod, gwybodaeth a ddarperir gennych ar ein gwefan.

Mae angen y wybodaeth naill ai i gyflawni eich cais neu i'n galluogi ni i ddarparu gwasanaeth mwy personol i chi. Nid oes rhaid i chi ddatgelu unrhyw wybodaeth er mwyn medru pori ein gwefan. Fodd bynnag, os byddwch yn dewis atal y wybodaeth y gofynnwyd amdano, efallai na fyddwn yn gallu darparu rhai gwasanaethau i chi.

Ein marchnata

Weithiau, gyda'ch caniatâd chi, byddwn yn prosesu eich data personol er mwyn rhoi gwybodaeth i chi am ein gweithgareddau yr ydych wedi gofyn amdanynt neu'n eu disgwyl.

Ar adegau eraill, efallai y byddwn yn prosesu data personol pan fydd angen i ni wneud hyn i gyflawni contract (er enghraifft, os ydych wedi gofyn am rywbeth penodol gan y gymdeithas) neu wrth ein cynorthwyo i gyrraedd ein nodau neu lle mae'n ofynnol i ni wneud hyn yn ôl y gyfraith neu reoliadau eraill.

Mae'r Gymdeithas Defaid Mynydd Cymreig hefyd yn prosesu eich data pan fydd er ein budd cyfreithlon i wneud hyn a phan nad yw'r buddiannau hyn yn diystyru eich hawliau. Mae'r diddordebau cyfreithlon hynny'n cynnwys rhoi gwybodaeth i chi am ein hapeliadau, cadwraeth, ymgyrchu, aelodaeth, gwasanaethau, cynhyrchion, codi arian, cylchlythyrau, adborth, cyfryngau cymdeithasol a gweithgareddau eraill a rhai sefydliadau eraill a ddewiswyd yn ofalus. Gweler yr adran ar 'Buddiant Cyfreithlon' am ragor o wybodaeth.

Sut rydym yn cael eich manylion

Byddwn hefyd yn cadw gwybodaeth am eich manylion fel y gallwn barchu eich dewisiadau ar gyfer y ffyrdd o gysylltu â chi.

Rydym yn casglu eich gwybodaeth bersonol mewn nifer o ffyrdd:

- Pan fyddwch yn ei ddarparu i ni'n uniongyrchol.
- O ffynonellau sydd ar gael i'r cyhoedd (lle bo'n bosibl) i ddiweddarau eich gwybodaeth (e.e. cronfa ddata Newid Cyfeiriad Cenedlaethol Swyddfa'r Post / Tŷ'r Cwmnïau / Cyfeiriadur BT).

Rydym yn cyfuno'r wybodaeth o'r ffynonellau hyn â'r wybodaeth a roddwch i ni'n uniongyrchol.

Plant

Os ydych o dan 18 oed, sicrhewch eich bod yn cael caniatâd eich rhiant/gwarcheidwad cyn anfon unrhyw wybodaeth bersonol i unrhyw wefan neu i'r Gymdeithas Defaid Mynydd Cymreig.

Noder na fyddwn yn marchnata nac yn derbyn rhoddion neu aelodaeth gan unrhyw bersonau o dan 18 oed yn fwriadol.

Fel rhiant neu warcheidwad, rydym yn eich annog i fod yn ymwybodol o'r gweithgareddau y mae eich plant yn cymryd rhan ynddynt ar-lein. Os bydd eich plant yn datgelu gwybodaeth yn wirfoddol, gall hyn annog negeseuon digymell. Awgrymwch eich bod yn annog eich plentyn i beidio â darparu unrhyw wybodaeth heb eich caniatâd.

Aelodau

Pan fyddwch yn dod yn aelod o Gymdeithas Defaid Mynydd Cymreig, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y gwaith yr ydym yn ei wneud a'r digwyddiadau yr ydym yn ymwneud â hwy. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau a allai effeithio arnoch chi a ni ac y mae angen i chi fod yn ymwybodol ohonynt. Byddwn ond yn defnyddio'r wybodaeth hon mewn perthynas â'ch aelodaeth gyda ni a thra eich bod yn parhau i fod yn aelod gyda'r gymdeithas. Drwy gytuno a thalu ffi aelodaeth i ni rydych yn cytuno i ni anfon negeseuon e-bost atoch a rhannu'r manylion hynny gyda'r grwpiau buddiant ehangach fel Marchnadoedd Da Byw. Byddwn yn rhannu eich cyfeiriad e-bost gydag aelodau eraill o Gymdeithas Ddefaid Mynydd Cymreig ar adegau, er enghraifft yn y broses o ddiweddarau'r gofrestr aelodaeth gyda chymorth ysgrifenyddion y 5 sir.

Data gwyddonol

Os ydych chi'n cyflenwi cofnodion gwyddonol neu amgylcheddol i'r Gymdeithas Defaid Mynydd Cymreig e.e. fel rhan o brosiect, byddant yn cael eu storio a'u defnyddio'n ofalus gennym ni a/neu ein partneriaid prosiect. Gall cofnodion o'r fath gynnwys, er enghraifft, gwybodaeth am rywogaethau, lleoliad, dyddiadau a ffotograffau.

Mae rhannu data gwyddonol yn helpu i ymchwilio ymhellach, addysg a'n dealltwriaeth genedlaethol o faterion bioamrywiaeth a chadwraeth. Felly gellir rhannu data gwyddonol dienw

gyda phartneriaid prosiect a thrydydd partiön a sefydliadau megis prifysgolion, ymchwilwyr academaidd a myfyrwyr.

Unrhyw beth arall?

Mae'r holl ddata personol rydym yn ei brosesu yn cael ei brosesu gan ein hysgrifennydd.

Os hoffech newid y modd yr ydych yn clywed gennym neu os nad ydych yn dymuno derbyn cyfathrebiadau marchnata uniongyrchol mwyach, dylech gysylltu â'r ysgrifennydd yn uniongyrchol i drafod hyn.

### 3. Buddiannau cyfreithlon

Mae gennym nifer o resymau cyfreithlon sy'n golygu y gallwn ddefnyddio (neu 'brosesu') eich gwybodaeth bersonol. Un rheswm cyfreithlon yw'r hyn a enwir yn 'fuddiannau cyfreithlon'. Yn gyffredinol, mae Buddiannau Cyfreithlon yn golygu y gallwn brosesu eich gwybodaeth bersonol os:

- Mae gennym reswm dilys.<sup>a</sup>
- Nid ydym yn niweidio unrhyw un o'ch hawliau a'ch buddiannau.

Darllenwch y datganiad 'Budd cyfreithlon' i gael rhagor o wybodaeth.

### 4. Rhannu eich gwybodaeth

Byddwn ond yn datgelu gwybodaeth i drydydd partiön neu unigolion pan fydd yn rhaid i ni yn ôl y gyfraith, at ddibenion diogelwch cenedlaethol, trethiant ac ymchwiliadau troseddol a'r canlynol:

- Os ydych wedi cytuno y gallwn wneud hynny.
- Pan fyddwn yn defnyddio cwmnïau eraill i ddarparu gwasanaethau ar ein rhan, e.e. prosesu, postio neu gyflenwi archebion, ateb cwestiynau cwsmeriaid am gynhyrchion neu wasanaethau, anfon post ac e-byst.
- I'n his-ganghennau (h.y. 5 is-grŵp Cymdeithas Defaid Mynydd Cymreig)
- Os byddwn yn derbyn cwyn am unrhyw gynnwys yr ydych wedi'i bostio neu ei drosglwyddo i neu o un o'n gwefannau, i orfodi neu gymhwyso ein Telerau ac Amodau neu os credwn fod angen i ni wneud hynny i ddiogelu ac amddiffyn hawliau, eiddo neu ddiogelwch personol Cymdeithas Defaid Mynydd Cymreig, ein gwefannau ac at ddibenion cyfreithlon eraill.
- Os byddwn yn uno â sefydliad arall i ffurfio endid newydd, gellir trosglwyddo gwybodaeth i'r endid newydd.
- Efallai y byddwn yn datgelu ystadegau cyfanredol am ymwelwyr, cefnogwyr ac aelodau ein safle i ddisgrifio ein gwasanaethau a'n gweithrediadau i ddarparu bartneriaid, hysbysebwy a thrydydd partiön eraill o enw da ac at ddibenion cyfreithlon eraill, ond ni fydd yr ystadegau hyn yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol.
- Os byddwn yn cynnal digwyddiad mewn partneriaeth â sefydliadau eraill a enwir, efallai y bydd angen rhannu eich manylion. Byddwn yn datgan yn glir i chi yr hyn fydd yn digwydd i'ch data pan fyddwch yn cofrestru.

Ac ni fyddwn byth yn gwerthu nac yn rhentu eich gwybodaeth bersonol i sefydliadau eraill.

### 5. Cadw eich gwybodaeth

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth dim ond cyhyd ag y bo angen a hynny ar sail pob diben unigol. Byddwn yn darparu enghreifftiau o rai o'n dibenion cadw yn y paragraff hwn yn fuan er mwyn rhoi syniad i chi o ba mor hir yr ydym yn cadw eich gwybodaeth.

Os penderfynwch beidio â chefnogi Cymdeithas Defaid Mynydd Cymreig mwyach neu ofyn i ni derfynu unrhyw gysylltiad pellach â chi, byddwn yn cadw rhywfaint o wybodaeth sylfaenol er mwyn osgoi anfon deunyddiau diangen atoch yn y dyfodol a sicrhau nad ydym yn dyblygu gwybodaeth yn ddamweiniol. Bydd eich manylion yn cael eu dileu flwyddyn ar ôl i chi derfynu eich aelodaeth.

#### 6. Eich manylion ar y we: Ein Polisi Cwcis

Nid oes mecanwaith olrhain na chasglu data ar ein gwefan gyfredol.

#### 7. Beth yw eich hawliau?

Mae Deddf Diogelu Data 2018 - Y Rheoliad Cyffredinol, yn rhoi nifer o hawliau pwysig iawn i bawb. Y rhain yw:

- Tryloywder ynghylch sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol (yr hawl i gael gwybod).
- Gofyn am gopi o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch, a fydd yn cael ei ddarparu i chi o fewn mis (yr hawl i gael mynediad).
- Diweddarau neu ddiwygio'r wybodaeth sydd gennym amdanoch os yw'n anghywir (yr hawl i gywiro).
- Gofynnwch i ni roi'r gorau i ddefnyddio'ch gwybodaeth (yr hawl i gyfyngu ar brosesu).
- Gofyn i ni dynnu eich gwybodaeth bersonol oddi ar ein cofnodion (yr hawl i gael eich 'hanghofio').
- Gwrthwynebu prosesu eich gwybodaeth at ddibenion marchnata (yr hawl i wrthwynebu).
- Cael ac aildefnyddio eich data personol at eich dibenion eich hun (yr hawl i gludadwyedd data).
- Peidio â bod yn destun penderfyniad pan fydd yn seiliedig ar brosesu awtomataidd (gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd).

Os hoffech wybod mwy am eich hawliau o dan y gyfraith diogelu data, ewch i wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Cofiwch, gallwch newid y ffordd rydych yn clywed gennym neu dynnu eich caniatâd yn ôl o ran prosesu eich data personol ar unrhyw adeg am fanylion gweler y dudalen 'Cysylltu â Ni'.

#### 8. Sut i gysylltu â ni

Os hoffech drafod unrhyw agwedd o'r polisi preifatrwydd, gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau neu gael copi o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch, cysylltwch â'n Hysgrifennydd a fydd yn hapus i helpu. Os hoffech godi cwyn ar sut rydym wedi ymdrin â'ch data personol, gallwch gysylltu â'n Hysgrifennydd a fydd yn ymchwilio i'r mater. Os nad ydych yn fodlon â'n hymateb neu os ydych yn credu nad ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith gallwch gwyno i'r Rheoleiddiwr Codi Arian neu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Gellir cysylltu â'n swyddog diogelu data drwy ysgrifennu at:

Ysgrifennydd a Swyddog Datblygu

Cymdeithas Defaid Mynydd Cymreig  
Croesor Uchaf

Croesor  
Penrhyndeudraeth  
Gwynedd  
LL48 6SS

Os hoffech siarad â ni am gynnwys y polisi neu'r wybodaeth sydd gennym amdanoch, cysylltwch â'n tîm gwasanaethau cefnogwyr:

- Trwy e-bost: [elain.gwilym@outlook.com](mailto:elain.gwilym@outlook.com)
- Trwy'r post : Elain Gwilym, Croesor Uchaf, Croesor, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6SS

Diweddarwyd y ddogfen hon ddiwethaf: Medi 2019